# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (MÔN A GWYNEDD)** | **SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT-COMMITTEE (ANGLESEY & GWYNEDD)** |
| **DYDD GWENER, 17 MAWRTH 2017, am 11.30 y bore** | **FRIDAY, 17 MARCH, 2017, at 11:30 a.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

Cynghorwyr /Councillors:

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*, E. Caerwyn Roberts Peter Read, Eirwyn Williams.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Trefor Lloyd Hughes, Llinos M. Huws *(Cadeirydd /Chair)*, Gwilym O. Jones,
R. Meirion Jones, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams (Sedd Wag/Vacant Seat)

**YR EGLWYS/THE CHURCH**

Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales
Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church
Eglwysi Rhyddion/Free Churches

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 18 TACHWEDD, 2016** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2016.

3 **CYFLWYNIAD AR Y STRATEGAETH ADY A CHYNHWYSIAD AR Y CYD**

Dangos y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad newydd – gydag enghreifftiau.

4 **MODEL LLYWODRAETHU AR GYFER Y STRATEGAETH ADY A CHYNHWYSIAD AR Y CYD**

- Cyflwyno'r Model Llywodraethu ar gyfer y Strategaeth ADY a Chynhwysiad ar y Cyd.
- Cyflwyno'r penawdau oddi fewn i'r Gytundeb Partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar gyfer cyflawni'r Strategaeth ADY a Chynhwysiad ar y cyd.

5 **DIWEDDARIAD ARIANNOL**

Derbyn diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor.

6 **CYFARFOD NESAF Y CYD-BWYLLGOR**

10:30 y. b., ddydd Gwener, 23 Mehefin, 2017 yng Nghaernarfon.

*(Mae'r cyfarfod hwn – os bydd ei angen - i bwrpas penodol cymeradwyo'n ffurfiol Gyfrifon drafft y Cyd-Bwyllgor am 2016/17 cyn eu harchwilio).*

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws **(Cyngor Sir Ynys Môn)** (Cadeirydd)<br><br>**Cyngor Gwynedd**<br><br>Y Cynghorwyr Elin Walker Jones, Caerwyn Roberts, Eirwyn Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Seicolegydd Addysg (Mr Gareth Payne)<br>Uwch Reolwr Cynhwysiad (Mr Gwern ap Rhisiart) (Cyngor Gwynedd)<br>Swyddog Addysg ADY (Dr Einir Thomas) (CSYM)<br>Rheolwr Prosiect (Eleri Llewelyn) (Cyngor Gwynedd)<br>Uwch Gyfrifydd Addysg (Mrs Kathy Bell) (Cyngor Gwynedd)<br>Swyddog Pwyllgor (Ann Holmes) (CSYM) |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorwyr Annwen Hughes, Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)<br>Y Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Gwilym O. Jones, R. Meirion Jones (CSYM)<br>Y Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg - CSYM) |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 MEDI, 2016**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2016 i sylw'r Pwyllgor a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 UNED DDARPARU AAA**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Cyd-Bwyllgor, adroddiad y Prif Seicolegydd Addysg yn nodi gwaith y gwasanaethau o fewn yr Uned Ddarparu yn ystod y cyfnod ers mis Mehefin, 2016.

Amlygodd y Prif Seicolegydd Addysg y materion canlynol:

- Oherwydd absenoldebau salwch, bu peth pwysau ar y Tîm Gwasanaethau Gweinyddol sy'n gyfrifol am weinyddu'r prosesau asesu ac adolygu. Mae'r aelodau o staff sy'n weddill wedi ysgwyddo rhai o'r cyfrifoldebau ychwanegol ac mae'r gwasanaeth wedi parhau i gwrdd â'r galwadau sydd arno. Mae aelodau o'r tîm wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant Technegau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Person i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd a fydd yn disgwyl i Awdurdodau Addysg yng Nghymru ddefnyddio'r cyfryw dechnegau pan fyddant yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol plant. Mae'r technegau hyn yn ceisio sicrhau bod y plentyn unigol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ganolbwynt y cyfarfodydd adolygu a'i fod yn cymryd rhan lawn ynddynt. Rhagwelir y bydd y ffordd newydd hon o gynnal cyfarfod adolygu yn sicrhau mwy o fanylder a chysondeb o ran natur a maint y cymorth ychwanegol y mae plant yn ei dderbyn.
- Mae aelodau o'r gwasanaeth addysgu arbenigol hefyd wedi mynychu'r hyfforddiant ar y Technegau PCP a byddant, ar y cyd â'r Seicolegwyr Addysg, yn gweithio gydag ysgolion i

DRAFT

hyrwyddo'r dull hwn ac i sicrhau cysondeb yn y ffordd y cynhelir cyfarfodydd adolygu. Mae un athro arbenigol ar gyfer plant sydd â nam ar y clyw wedi gadael y gwasanaeth i ddilyn swydd mewn sir arall.

- Yn dilyn secondio aelod o'r gwasanaeth i weithio ar y Strategaeth ADY a Chynhwysiad ar y cyd, mae gan y Gwasanaeth Seicolegwyr Addysg aelod ychwanegol o staff. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i roi cymorth i ysgolion y ddau awdurdod gan gynnwys gweithio gyda phlant unigol, ymgynghori ar faterion sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol a darparu hyfforddiant mewn ysgolion ar eu cais.
- Mae data ystadegol ar gyfer y 10 mlynedd diwethaf o 2006 i 2016 yn dangos nad yw nifer y datganiadau o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd yn y ddwy sir wedi gostwng i raddau sy'n awgrymu bod y tueddiad hwn at i lawr yn un dueddiad parhaol. Mae'r gymhareb rhwng Ynys Môn a Gwynedd yn amrywio, ac er y bu canran y datganiadau a gyhoeddwyd yn Ynys Môn o dan 40% am gyfnod estynedig, 'roedd y ganran ar gyfer 2014/15 a 2015/16 yn is yng Ngwynedd nag yn Ynys Môn, sef 49% a 39% yng Ngwynedd o gymharu â 51% a 61% ar gyfer Ynys Môn.  Cwblheir y rhan fwyaf o ddatganiadau o fewn y 26 wythnos statudol os na chyfrir yr oedi a achosir oherwydd derbyn gwybodaeth yn hwyr gan bersonél o du allan i'r Awdurdodau Addysg. Mae canran y datganiadau a gwblheir o fewn yr amserlen statudol o 28 diwrnod heb eithriadau tua 95% ar gyfer Gwynedd a 94% ar gyfer Ynys Môn. Os cymerir eithriadau i ystyriaeth, mae'r ganran gyfartalog yn 71% ar gyfer Gwynedd a 67% ar gyfer Ynys Môn.

Ystyriodd y Cyd-Bwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a chodwyd y materion canlynol:

- Nododd y Cyd-Bwyllgor fod y Gwasanaeth Gweinyddol wedi bod dan bwysau ychwanegol, a hynny oherwydd absenoldeb salwch.  Ceisiodd sicrwydd bod y tîm wedi cael cymorth priodol i'w alluogi i gyflawni ei dyletswyddau yn effeithiol yn ystod y cyfnod hwn.

  Hysbyswyd y Cyd-bwyllgor fod yr Uwch Reolwr Cynhwysiad a Swyddog Addysg ADY Ynys Môn wedi bod yn edrych ar reolaeth y Cyd-Bwyllgor am beth amser a bod rhai o gyfrifoldebau'r Rheolwr Gwasanaeth Gweinyddol wedi trosglwyddo i'r Tîm Cynhwysiad o fewn Gwasanaeth Addysg Gwynedd .Mae yna hefyd ymdrech barhaus i leihau nifer y datganiadau yng Ngwynedd ac Ynys Môn, i symud i systemau electronig ac i symleiddio prosesau gan leihau biwrocratiaeth yn ogystal â gostwng y baich gwaith ar gyfer y staff gweinyddol sy'n weddill. Mae yna hefyd symudiad cynyddol tuag at fabwysiadu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU).Mae'r holl ffeiliau papur wedi cael eu sganio a'u trosglwyddo i'w cadw yn y Cwmwl. Mae Swyddog dynodedig hefyd erbyn hyn yn yr Adran Adnoddau Dynol yng Nghyngor Sir Ynys Môn sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt penodol gan hwyluso cyfathrebu.

- Nododd y Cyd-Bwyllgor y collwyd gwasanaeth Athro Arbenigol i Blant sydd â Nam ar y Clyw a gofynnodd am eglurhad ar yr effaith bosib ar y gwasanaeth yn sgil y ffaith bod yr unigolyn dan sylw wedi gadael i ddilyn swydd arall.

  Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-Bwyllgor y bu gostyngiad bychan iawn yn y gwasanaeth. Mae'r meini prawf ar gyfer cael mynediad i'r gwasanaethau wedi cael eu hadolygu ac mae'r awdurdodau yn gweithredu mewn modd cynlluniedig ac yn edrych ar y gofynion tymor hir tebygol ar draws y sbectrwm o wasanaethau ADY yn hytrach na dim ond ymateb i'r anghenion cyfredol. Sefydlwyd fforwm hefyd yn sgil y Strategaeth ADY newydd a fydd yn golygu y gellir delio'n gyflymach gydag achosion.  Yn ychwanegol, mae trafodaeth barhaus gyda'r gwasanaethau unigol fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth ADY ac felly, os bydd angen yn codi yn y cyfnod interim, gellir ystyried dod o hyd i opsiwn dros dro. Mae sylw cynyddol yn cael ei roi i ba mor briodol yw'r gwasanaethau a

DRAFT

roddwyd. Gellid dweud fod y Cyd-Bwyllgor wedi bod yn hael yn y gorffennol o ran sut mae wedi ymateb ac yn y ffordd y mae wedi ceisio cwrdd ag anghenion a monitro addasrwydd y ddarpariaeth a wneir, yn enwedig o ran anghenion llai dwys.

- Nododd y Cyd-Bwyllgor y cafwyd anawsterau yn hanesyddol o ran penodi seicolegwyr addysg dwyieithog a gofynnodd a yw hynny'n dal i fod yn wir. Holodd hefyd a oes unrhyw ddulliau newydd yn cael eu mabwysiadau i wella'r recriwtio i'r gwasanaeth.

  Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-Bwyllgor fod Grŵp Gweithredu ADY wedi ei sefydlu fel rhan o broses gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd a'i fod yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i ariannu cynllun hyfforddi gyda golwg ar ymestyn y ganolfan hyfforddi tu hwnt i'r cyfleuster sydd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Un o ddangosyddion perfformiad y cwrs ar gyfer seicolegwyr ac athrawon arbenigol fydd nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae hwn yn fwriad sydd dan sylw ac mae yna fewnbwn lleol i'r drafodaeth. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gwneud ymrwymiad i hyfforddi dau seicolegydd addysg a fydd ar gael i'r gwasanaeth erbyn yr haf, a hynny ar gost nid ansylweddol ac ar risg hefyd os digwydd na fydd agoriad swydd ar gael iddynt.

- Ceisiodd y Cyd-Bwyllgor eglurhad ar y ffactorau sy'n golygu bod niferoedd y datganiadau yng Ngwynedd yn lleihau.

  Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-Bwyllgor fod ysgolion yng Ngwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer gweithredu'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae rhai ceisiadau am gymorth ychwanegol yn cael eu cyfeirio at y Paneli Cymedroli yn uniongyrchol gan roi cyfle i rieni symud yn syth at Gynllun Datblygu Unigol ar gyfer eu plentyn heb yr angen am asesiad statudol sydd, yn ei dro, yn rhyddhau staff i ymgymryd â gwaith arall. Yn ystod yr haf sefydlwyd cynllun gweithredu manwl sy'n cynnwys ysgolion, y Cyd-Bwyllgor a staff ehangach, a hynny er mwyn rhoi gwybod i'r holl bartïon am y gweithdrefnau newydd. Fodd bynnag, nid yw hawl gyfreithiol rhieni wedi newid ac maent yn cadw'r hawl gyfreithiol i ofyn am ddatganiad o angen os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'n well gan y mwyafrif gynllun datblygu unigol fel llwybr mwy ymarferol ac effeithiol i gael cymorth a chefnogaeth ac er nad yw'r anghenion wedi gostwng, mae'r ffordd o gwrdd â nhw wedi newid.

- Nododd y Cyd-Bwyllgor y byddai'n ddefnyddiol ac yn fuddiol pe bai modd cael gwybod faint o blant sy'n destun Cynllun Datblygu Unigol yn y dyfodol yn yr adroddiadau gan yr Uned Ddarparu AAA fel y gellir gwerthuso effeithiolrwydd y CDU yn well. Yn ogystal, dylai'r data roi rhyw arwydd o nifer yr eithriadau i helpu'r Cyd-Bwyllgor i ddeall y niferoedd gwirioneddol y tu ôl i'r canrannau.

  Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-Bwyllgor fod ymateb hwyr gan y Gwasanaeth Iechyd yn hanesyddol wedi golygu methu'r amserlen statudol ar gyfer cyhoeddi datganiadau, yn enwedig yn Ynys Môn. Cafwyd trafodaethau gyda Therapyddion Iaith y Gwasanaeth Iechyd a daethpwyd i gytundeb na ddylid bod angen ailgyhoeddi adroddiadau a gwblhawyd yn ystod y chwe mis blaenorol. Yn ogystal, mae'r model dan y Strategaeth ADY ar y cyd newydd yn cwmpasu Therapyddion Iaith a CAMHS sydd felly'n sicrhau cyfraniad gan ymarferwyr yn y Gwasanaeth Iechyd o'r cychwyn cyntaf. Mae demograffeg yr ysgolion wedi newid yn sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf ac ers sefydlu'r Cyd-Bwyllgor, ac mae patrymau yn dod i'r amlwg o ran nifer y datganiadau a Chynlluniau Datblygu Unigol mewn perthynas â sectorau, dosbarthiadau ac ysgolion penodol. Er bod mewnfudwyr i'r rhanbarth sy'n ceisio cael mynediad i'r ddarpariaeth yn fater y

DRAFT

mae'r Cyd-Bwyllgor wedi edrych arno eisoes o ran ei effaith, mae'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys i gael cymorth ychwanegol wedi eu datgan yn glir a'u cyhoeddi bellach ac mae hynny'n ei gwneud yn haws i rieni wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ffeithiau.

- Ceisiodd y Cyd-Bwyllgor eglurhad ar statws y Strategaeth ADY ar y Cyd newydd o gymharu ag awdurdodau eraill ledled Cymru.

  Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-Bwyllgor fod Swyddogion o'r ddwy sir wedi ceisio pwysleisio i Lywodraeth Cymru y dylai'r holl ofynion ac ymarferiadau o dan y ddeddfwriaeth ADY newydd gael eu gweithredu'n gyfartal ac yn ddiwahân ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, a hynny er budd cysondeb, tegwch, ac atebolrwydd. Ni chredir y byddai caniatáu i'r 22 awdurdod lleol benderfynu eu meini prawf eu hunain yn hwyluso pethau ac mai gwell fyddai cyhoeddi set genedlaethol o feini prawf fel rhan o'r ddeddfwriaeth.

  'Roedd y Cyd-Bwyllgor o'r farn, fel fforwm penodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, y dylai gefnogi'r ymdrech i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i safoni meini prawf cymhwyster ADY ar draws Cymru ac i'r perwyl hwn, cytunwyd y dylid gofyn i swyddogion ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ei ran.

  **Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

  **CAMAU GWEITHREDU :**

- **Bod adroddiadau yn y dyfodol ar ddata gan yr Uned Ddarparu AAA yn cynnwys gwybodaeth am nifer y plant sydd â Chynllun Datblygu Unigol.**
- **Bod adroddiadau yn y dyfodol ar ddata gan yr Uned Ddarparu AAA yn cynnwys nifer y plant yr effeithir arnynt gan eithriadau.**
- **Bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru ar ran y Cyd-Bwyllgor i ofyn am gyhoeddi set genedlaethol o feini prawf cymhwyster fel rhan o'r Mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).**

**4 RHEOLI'R CYD-BWYLLGOR**

O ganlyniad i absenoldeb y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol, adroddodd Uwch Reolwr Cynhwysiad Cyngor Gwynedd fod y Cyd-Bwyllgor AAA, ers mis Medi diwethaf, wedi cael ei reoli ar y cyd ar sail anffurfiol gan yr Uwch Reolwr Cynhwysiad, Swyddog ADY Ynys Môn a'r Prif Seicolegydd Addysg. Gofynnir am gefnogaeth y Cyd-Bwyllgor i ffurfioli'r trefniant hwn er mwyn darparu sefydlogrwydd ar gyfer y staff. Er mwyn hwyluso'r trefniant y bwriad yw ail-leoli'r swyddfa i Adran Addysg Gwynedd.

Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg na fyddai'r trefniant arfaethedig yn golygu cost ychwanegol i'r Cyd-Bwyllgor.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r trefniant ar gyfer rheoli Swyddfa Weinyddol y Cyd-Bwyllgor fel y cynigiwyd.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

**5 Y DIWEDDARAF AR SEFYLLFA ARIANNOL Y CYD-BWYLLGOR**

Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg mai'r arwyddion yw y bydd y Cyd-Bwyllgor yn gallu talu ei ffordd a mantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae sganio ffeiliau ar gyfer eu cadw yn y Cwmwl wedi costio £30k yn fwy na'r gyllideb a rhennir y gost honno rhwng y ddau awdurdod ar sail £20k ar gyfer Gwynedd a £10k ar gyfer Ynys Môn yn ychwanegol at eu cyfraniadau, a hynny fel y cytunwyd pe bai yna unrhyw orwariant yng nghyllideb sefydlog y Cyd-

DRAFT

Bwyllgor. Fodd bynnag, efallai y bydd tanwariant mewn rhannau eraill o’r gyllideb a fydd o gymorth i gydbwyso’r gorwariant.

Dywedodd yr Uwch Reolwr Chynhwysiad fod symud i system storio ffeiliau’n ddigidol yn ei gwneud yn llawer haws i gael mynediad i wybodaeth a chael gafael ar wybodaeth a’i fod yn golygu bod gwybodaeth yn llawer mwy diogel nag y byddai fel arall pe bai ar ffurf papur mewn un lleoliad. Yn ogystal, mae ail-leoli’r Swyddfa Weinyddol i Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn golygu nad oes lle ar gael i gadw’r llwyth o waith papur perthnasol.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 6 Y DIWEDDARAF AR Y STRATEGAETH ADY A CHYNHWYSIAD AR Y CYD

Adroddodd y Rheolwr Prosiect ar y materion a oedd yn codi o gyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor ym mis Medi o ran gweithredu’r Strategaeth Cynhwysiad ADY ar y Cyd newydd fel a ganlyn:

- Y bydd y Model Llywodraethiant yn rhan o'r cytundeb ffurfiol rhwng y Cyd-Bwyllgor a’r Penaethiaid Addysg yn y ddau awdurdod. Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddrafftio, sy’n ddogfen gyfreithiol, i fynd law yn llaw â’r newidiadau sy'n digwydd a bydd y model llywodraethu yn cael ei adolygu.
- Mae trafodaethau gydag ysgolion a chyrff llywodraethu yn parhau ac maent yn cael eu diweddaru ynghylch y datblygiadau trwy'r cydlynwyr. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr.
- Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn hwyluso’r newid i'r model newydd.
- Gellir ymgorffori cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar y gwasanaethau a gwmpesir gan y Strategaeth ADY a Chynhwysiad newydd o fewn y cytundeb ffurfiol terfynol.
- Trafodwyd diogelu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio mesurau i fynd i'r afael â'r mater hwn ac i ariannu cyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer seicolegwyr addysg ac athrawon arbenigol.
- Mae’r ddarpariaeth ar gyfer pobl 16 i 25 oed wedi cael ei chydnabod yn y Strategaeth ADY a Chynhwysiad newydd fel ail gam. Disgwylir am fwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran pwy sy'n gyfrifol yn ariannol am y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp oedran hwn.
- Mae ymgynghoriad ar y broses ailstrwythuro wedi cychwyn ers 5 Hydref ac mae pob aelod o staff yr effeithir arnynt o fewn y Cyd-Bwyllgor a’r ddau awdurdod wedi cael cyfle i gyflwyno eu sylwadau mewn cyfarfodydd un i un gyda chynrychiolwyr Personél. Yn ogystal, mae pob gwasanaeth wedi cael cyfle i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ac i roi atborth ar y strwythur arfaethedig sydd bellach yn cael ei fireinio. Cynhelir cyfarfod ar gyfer holl aelodau'r staff ar 6 Rhagfyr, 2016 lle bydd Penaethiaid Addysg Cynghorau Gwynedd a Môn yn cyflwyno'r strwythur staffio terfynol.

Nododd y Cyd-Bwyllgor y wybodaeth a gofynnodd am eglurhad ar weithredu’r llinell amser ac, o ganlyniad, yr amserlen ar gyfer dirwyn y Cyd-Bwyllgor i ben fel endid ac fel fforwm, yn enwedig o ystyried bod cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor, a’r cyfarfod olaf o bosib, wedi ei drefnu ar gyfer 17 Mawrth, 2017.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-Bwyllgor y bydd y Cyd-Bwyllgor yn peidio a bod yn gyflogwr ar 31 Awst, 2017; bwriedir y bydd y newidiadau staff a weithredir fel rhan o'r Strategaeth yn dod i rym ar 1 Medi, 2017 a bryd hynny bydd Cyngor Gwynedd yn dod yn gyflogwr fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer y Strategaeth ADY a Chynhwysiad ar y Cyd. Bwriedir y bydd y cytundeb partneriaeth rhwng y ddau awdurdod yn ei le erbyn 31 Mawrth, 2017 a gwneir pob ymdrech i ffurfioli'r trefniadau llywodraethu erbyn mis Mawrth, fel y gellir cyflwyno’r model llywodraethu i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen cynnal cyfarfod (ydd) o’r Cyd-Bwyllgor ar ôl mis Mawrth, 2017 er mwyn cau'r cyfrifon yn ffurfiol cyn diwedd mis Medi yn unol â'r gofyn statudol.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth.**

DRAFT

**CAM GWEITHREDU: Swyddogion i gadarnhau'r gofynion ar gyfer cyfarfodydd ynghyd â’r amserlen ar gyfer dod â'r Cyd-Bwyllgor i ben.**

**7 CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor am 10:30 o’r gloch y bore ar ddydd Dydd Gwener, 17 Mawrth 2017 yn Llangefni.

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

1

DRAFFT

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig** |
| DYDDIAD | **17 Mawrth 2017** |
| TEITL YR ADRODDIAD | **Cyllideb 2017/18** |
| ADRODDIAD GAN | **Pennaeth Gwasanaeth Cyllid** |

---

**Cyllideb 2017/18**

Mae'r gyllideb am 2017/18 am y cyfnod Ebrill-Awst 2017 yn unig, gan bod y Cyd-Bwyllgor fel endid yn dod i ben 31 Awst 2017. Felly mae'r gyllideb yn cynrychioli 5 mis o gostau.

Yr unig beth newydd yn y gyllideb ydi'r Ardoll Prentisiaeth sy'n cael ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2017/18, sydd yn 0.5% o gost cyflogau staff y Cyd-Bwyllgor.

Gwir sefyllfa staffio Ebrill 2017 ydi –

- 9.7 Seicolegwyr (cynnwys 2 hyfforddai)
- 7.0 Athrawon Arbenigol
- 1.4 Uwch Gymorthyddion
- 4.4 Staff Gweinyddol

Mae oedi wedi bod i ad-leoli staff i Pencadlys, Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon, ond mae disgwyl i hyn ddigwydd yn fuan.

Bydd cyfraniad Gwynedd am y 5 mis yn £313,100 a chyfraniad Ynys Môn yn £174,060 + £23,000 arbedion sydd heb eu darganfod sy'n gyfanswm o £197,060. Bydd yr awdurdodau yn talu beth bynnag ydi gwir gost y Cyd-Bwyllgor am y cyfnod Ebrill-Awst 2017.

Bwriad, yn ddarostyngedig i sylwadau gan yr archwilwyr allanol, yw cyflwyno cyfrifon terfynol 2016/17 i Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod arweiniol dan y trefniant newydd ar ôl 31 Awst 2017.

**Argymhelliad**
Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a mabwysiadu'r gyllideb am 2017/18, sef am y cyfnod Ebrill-Awst 2017.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG
## CYLLIDEB 2017/18 (5mis Ebrill-Awst 2017)

| | gwir staffio Ebrill 2016 | **Cyllideb 2016/17 (blwyddyn gyfan)** £ | **Cyllideb 2017/18 (Ebrill-Awst 2017)** £ | gwir staffio Ebrill 2017 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | | | | |
| - Seicolegwyr | (8.7) | 496,367 | **224,400** | (9.7) |
| - Athrawon Arbenigol | (8.0 + 1.4) | 455,134 | **168,680** | (7.0 + 1.4) |
| - Gweinyddol | (5.4) | 185,331 | **62,260** | (4.4) |
| - Ardoll Prentisaeth | | 0 | **1,820** | |
| Hyfforddiant | | 9,520 | **3,970** | |
| Yswiriant Atebolrwydd | | 4,300 | **1,790** | |
| Adeilad | | | | |
| Trethi | | 5,206 | **2,170** | |
| Rhent a Gwasanaethau | | 28,301 | **11,790** | |
| Cludiant | | | | |
| Costau Teithio | | 50,780 | **21,160** | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | | 17,480 | **7,280** | |
| Hysbysebu Cyfrifon Terfynol | | 1,080 | **450** | |
| Ffi Archwilio | | 1,000 | **420** | |
| Ffôn | | 3,000 | **1,250** | |
| Post | | 1,880 | **780** | |
| Costau Canolog Ynys Môn | | 1,630 | **680** | |
| Costau Canolog Gwynedd | | 5,010 | **2,090** | |
| Arbedion i'w darganfod - Ynys Môn | | -55,210 | **-23,000** | |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,210,809 | **487,990** | |
| **Incwm** | | | | |
| Incwm Allanol | | 2,000 | **830** | |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | 64.27% | 776,847 | **313,100** | |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | 35.73% | 431,962 | **174,060** | |
| **Cyfanswm Incwm** | | 1,210,809 | **487,990** | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | | 0 | **0** | |